# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd Diogelwch a Llesiant** |
| **Aelod Cabinet:** | ***Cynghorydd Llio Elenid Owen*** |
| **Swyddog perthnasol:** | ***Gail Warrington, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant*** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16eg Rhagfyr 2025** |

**1. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

*Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel bod gan aelodau drosolwg hanfodol o'r prif faterion iechyd a diogelwch a gododd yn ystod 2024/25*

**2. Penderfyniad a Geisir:**


*Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.*

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

Mae'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi parhau i ddangos ymrwymiad cadarnhaol a pharhaus i gefnogi'r gweithlu drwy gyfnod o newid ac addasu. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith o hyrwyddo Modelau Diogelwch wedi cyrraedd pob rheolwr, gan gryfhau dealltwriaeth a chydweithrediad ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae camau pendant wedi'u cymryd o fewn y cynllun llesiant, gyda gweithgareddau a hyfforddiant parhaus yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o feithrin diwylliant mwy cefnogol a chynhwysol. Mae'r hyfforddiant hwn yn rhan allweddol o'r newid diwylliannol sy'n digwydd ar draws y Cyngor, gan sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn rhan annatod o'n ffordd o weithio. Yn ogystal, mae polisïau allweddol wedi'u hadolygu – gan gynnwys y polisi Alcohol a Chyffuriau – er mwyn diogelu pawb sy'n ymwneud â'n gwasanaethau, boed yn weithwyr neu'n aelodau o'r cyhoedd. Mae'r gwaith hwn yn rhan o ymdrech barhaus i sicrhau gwelliant parhaol, gyda ffocws clir ar adeiladu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynaliadwy.


**4. Ystadegau Damweiniau 2024/25**

Yn ystod 2024/25, cafwyd cyfanswm o 4,128 o adroddiadau am ddigwyddiadau i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, gyda 53 ohonynt yn ddigwyddiadau adroddiadwy o dan reoliadau RIDDOR. O'r rhain, roedd 26 yn ymwneud ag absenoldeb o dros 7 diwrnod, 21 yn ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cludo i'r ysbyty am driniaeth, 2 yn ddigwyddiadau peryglus, 1 yn gyflwr meddygol, ac roedd 3 yn ymwneud ag anafiadau penodol i aelodau staff.




Nifer y digwyddiadau (yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau agos) / Nifer o RIDDOR

Er bod y nifer cyffredinol o adroddiadau wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nid yw'r nifer o ddigwyddiadau difrifol (h.y. RIDDOR) wedi cynyddu i'r un graddau. Mae'r cynnydd mwyaf amlwg wedi bod yn y categori "Digwyddiadau Treisgar", gydag 1,811 o adroddiadau yn 2024/25 i'w gymharu â 1,041 yn 2023/24. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf wedi'i ganfod yn yr Adran Addysg, ble mae nifer yr adroddiadau wedi dyblu o 777 i 1,605. Mae hyn yn adlewyrchu'r anogaeth barhaus i staff ysgolion adrodd pob digwyddiad drwy'r ffurflen HS11, gan sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol ar gael i gefnogi unrhyw gamau pellach. Mae grŵp penodol bellach yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Adran Addysg i fonitro a thrafod y sefyllfa.




Digwyddiadau a adroddwyd o dan RIDDOR 2021/22-2024/25

Wrth edrych ymlaen, bydd cyflwyno system ddigidol newydd ar gyfer cofnodi digwyddiadau yn galluogi'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant i adnabod tueddiadau ar draws y Cyngor yn fwy effeithiol. Yn ogystal, bydd rheolwyr yn cael mynediad uniongyrchol at ddata byw, gan eu galluogi i weithredu mesurau rheoli priodol yn syth lle bo angen. Mae'r datblygiad hwn yn gam cadarnhaol tuag at wella ymateb gweithredol a chynllunio strategol, gan gryfhau diogelwch a llesiant ar draws y sefydliad.

**Gorfodi a Chydymffurfio**

Yn ystod 2024/25, parhaodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant i gydweithio ar Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID), sy'n gyfrifol am orfodi cyfraith iechyd a diogelwch ar draws y DU. Yn dilyn ymweliadau blaenorol fel rhan o ymgyrch genedlaethol AGID i adolygu rheolaeth asbestos mewn ysgolion, nid oes unrhyw ymweliad pellach wedi'i gynnal hyd at Ebrill 2025. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r holl argymhellion a dderbyniwyd yn 2023/24, gyda'r Uned Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaeth Eiddo yn parhau i fonitro a diweddaru'r trefniadau lle bo angen.

Yn 2024/25, daeth AGID i gysylltiad â'r Cyngor mewn perthynas â dau gartref preswyl. Yn y digwyddiad cyntaf, bu damwain lle cafodd preswylydd godwm, a ymwelodd AGID â'r safle i adolygu'r trefniadau a'r gwaith papur. Yn dilyn yr ymweliad, derbyniwyd argymhellion i wella prosesau gwaith papur ac i gryfhau hyfforddiant atal codymu. Bu cost o £1,044, sef ffi ymyrraeth gan yr AGID. Mae'r argymhellion hyn bellach wedi'u gweithredu'n llawn, gan gynnwys cyflwyno templed asesiad risg codymu newydd fel rhan o'r cynlluniau gofal. Yn ogystal, mae trefniadau ar waith i sicrhau bod pecyn hyfforddiant ar gael i staff, naill ai drwy ddarpariaeth fewnol neu drwy ddarparwr allanol.

Roedd yr ail gyswllt dros e-bost, yn dilyn damwain symud a thrin lle anafwyd preswylydd. Yn yr achos hwn, cafwyd Rhybudd Gwella gan yr AGID ac mae'r holl argymhellion wedi'u gweithredu, gan gynnwys adolygu a diweddaru templedi asesu risg a sicrhau bod asesiadau risg y cartref penodol yn gyfredol.

Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i gydymffurfio â gofynion statudol ac i sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch preswylwyr a staff.

**Rhaglen Waith y Gwasanaeth**


Yn ystod 2024/25, mae'r Uned Iechyd a Diogelwch a'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi parhau i gydweithio'n agos ar brosiectau strategol a gweithredol, gan sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn cael eu cefnogi'n gynhwysfawr ar draws y Cyngor. Mae'r cydweithio'n cynnwys datblygu polisïau allweddol megis y Polisi Alcohol a Chyffuriau a'r Weithdrefn Lles Meddyliol, lle mae'r ddwy uned yn cyfrannu arbenigedd i sicrhau bod rheolwyr yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol i ymateb i sefyllfaoedd cymhleth yn y gweithle. Mae'r ddwy uned hefyd yn cydweithio ar hyfforddiant, cyfathrebu ac ymwybyddiaeth, gan sicrhau dull integredig o gefnogi'r gweithlu.

O safbwynt yr Uned Iechyd a Diogelwch, bu ffocws penodol ar gryfhau sgiliau rheolwyr drwy hyfforddiant strwythuredig. Cynhaliwyd naw cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel a phum cwrs adnewyddu, gan arwain at 72% o reolwyr bellach â chymhwyster cyfredol. Mae cwrs adnewyddu Rheoli Safle bellach ar gael, gyda 40% o reolwyr safle wedi cwblhau'r hyfforddiant. Yn ogystal, cynhaliwyd 100 diwrnod o hyfforddiant Symud a Thrin, gan gynnwys cyrsiau arbenigol megis Ski-Pad a

Mangar, i gefnogi staff sy'n gweithio gyda phobl a gwrthrychau mewn sefyllfaoedd risg uchel.

Mae'r Uned Iechyd a Diogelwch hefyd wedi arwain ar adolygu ac adnewyddu polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys Polisi a Chynllun Rheoli Tân, Cynllun Rheoli RADON, a'r Weithdrefn Diogelwch Personol a Gweithio'n Unig. Cafodd y Weithdrefn Diogelwch Personol a Gweithio'n Unig sylw penodol drwy grŵp o'r Fforwm Corfforaethol, i sicrhau bod asesiadau risg a mesurau rheoli ymarferol yn cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y gweithlu a'r gwasanaethau. Mae pob polisi a gweithdrefn yn cael ei gyflwyno i'r Panel Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol i'w gymeradwyo, gyda'r Panel yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys cynrychiolwyr undebau, aelodau'r cyngor, prif swyddogion ac unrhyw swyddog sy'n cyflwyno gwaith perthnasol.

O safbwynt yr Uned Iechyd Galwedigaethol, bu ffocws ar ymateb i gynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau – gyda 1,051 o gyfeiriadau wedi dod i law yn ystod y flwyddyn, 464 ohonynt yn ymwneud ag iechyd meddwl. Mae'r system salwch staff newydd wedi cyfrannu at wella adnabod achosion ac wedi arwain at fwy o gyfeiriadau amserol. Mae'r ddarpariaeth cwnsela wedi ehangu'n sylweddol, gyda 451 o aelodau staff yn derbyn cefnogaeth – cynnydd o dros 180% ers y flwyddyn flaenorol, yn rhannol oherwydd newidiadau i'r drefn gyfeirio a'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r gwasanaeth.




Mae profion gwyliadwriaeth iechyd yn parhau i fod yn elfen hanfodol o waith statudol y Uned, gan sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac yn diogelu iechyd y gweithlu. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr Uned Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid drwy gais bid ar gyfer 2024, gan alluogi'r gwaith i barhau'n ddi-dor dros y flwyddyn ddiwethaf ac am flwyddyn ychwanegol. Y bwriad yw os caiff y bid newydd ei gymeradwyo, y bydd modd sefydlu'r swydd ar sail barhaol, gan roi sefydlogrwydd i'r rhaglen a galluogi cynllunio tymor hwy.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys trefnu ac adolygu profion iechyd rheolaidd ar gyfer staff mewn rolau risg uchel, gyda phwyslais arbennig ar brofion clyw, gan fod newidiadau diweddar gan AGID wedi golygu bod angen galw unigolion yn ôl yn gynt

am brofion pellach- ar hyn o bryd, mae 85% o unigolion angen ail brawf. Yn ystod ymweliad diweddaraf AGID, nodwyd yn benodol bwysigrwydd sicrhau trefniadau cadarn yn y maes hwn, gan fod methiant i gydymffurfion gallu arwain at risg o erlyniad a chostau sylweddol i'r Cyngor. Mae'r Uned wedi ymateb drwy gryfhau prosesau, gwella cofnodi a chynyddu capasiti i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei gweithredu'n effeithiol ac yn barhaus.

Yn ogystal, mae'r Uned wedi cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu'r Cynllun Llesiant, a gyflwynwyd i reolwyr yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith tymor yr Hydref. Mae'r cynllun yn tynnu ynghyd wasanaethau o fewn Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, a'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, ac wedi arwain at gynnal sioe deithiol i gyrraedd staff cartrefi gofal a depos, cynnig gwiriadau iechyd, a chydweithio gyda phartneriaid megis Byw'n Iach a Budd i Bawb. Mae hyfforddiant I-Act wedi ailgychwyn, gyda 40% o reolwyr ac arweinyddion tîm wedi mynychu, a modiwl newydd ar gyfeirio i'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn cael ei gyflwyno yn nhymor yr Hydref 2025.

Mae'r rhaglen waith hon yn adlewyrchu dull integredig ac ymarferol o gefnogi'r gweithlu, gan sicrhau bod pob agwedd o iechyd, diogelwch a llesiant yn cael sylw. Mae'r cydweithio rhwng yr unedau'n allweddol i lwyddiant y gwasanaeth, a'n parhau i ddatblygu mewn ymateb i anghenion newidiol y Cyngor.

**Systemau Iechyd a Diogelwch o fewn Cyngor Gwynedd – yn cynnwys ISO 45001**
Mae achrediad ISO 45001 yn parhau i fod yn gydnabyddiaeth bwysig o safonau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant o fewn Cyngor Gwynedd. Ar hyn o bryd, mae'r system yn cael ei gweithredu o fewn yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, gyda chwmni allanol (BSI) yn cynnal archwiliadau ac yn monitro'r system bob chwe mis. Yn ystod 2024/25, ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol uwch yn ystod yr archwiliadau hyn, ac mae'r adran wedi parhau i gynnal archwiliadau mewnol, fforwm trafodaeth a'n adolygu cofrestr risg yr adran yn rheolaidd.

Yn ystod y cyfnod archwilio, nodwyd rhai meysydd lle gellid cryfhau trefniadau presennol. Mae'r adran wedi gweithredu camau priodol i fynd i'r afael â'r rhain, gan adolygu'r dulliau a'r prosesau perthnasol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac atal ailadrodd. Mae'r gwaith hyn yn rhan o ymdrech barhaus i gynnal safonau uchel o reolaeth fewnol ac i gefnogi'r broses achredu allanol.

Oherwydd newidiadau mewn strwythur, mae Priffyrdd a YGC yn rhedeg dwy system ISO 45001 ar wahân ar hyn o bryd, ond mae trafodaethau'n parhau gyda BSI ac o fewn yr adran i ystyried ymgorffori'r ddwy system i'r dyfodol. Mae'r system ISO 45001 yn cael ei hadnabod yn rhyngwladol fel safon y diwydiant, ac mae system electroneg newydd ar gyfer iechyd a diogelwch y Cyngor yn cael ei datblygu ar sail egwyddorion y safon hon.

Yn ehangach ar draws y Cyngor, mae gwaith sylweddol wedi dechrau i gefnogi newid diwylliant iechyd, diogelwch a llesiant. Cynhaliwyd dadansoddiad blwch lle gofynnwyd i reolwyr adolygu eu gwasanaethau a nodi pa elfennau o reolaeth iechyd a diogelwch sydd wedi'u cwblhau, pa rai sydd yn y broses o gael eu cwblhau, ac unrhyw feysydd sydd angen eu cynnwys mewn rhaglen waith. Mae'r dadansoddiad hyn bellach yn cael ei lunio a'i lliwio gan y Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac yn ffurfio sail raglen archwilio gorfforaethol newydd.

Yn ogystal, mae system digidol iechyd a diogelwch newydd yn cael ei datblygu ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a'r Uned Iechyd a Diogelwch. Am y tro cyntaf, bydd gweithwyr yn gallu adrodd damweiniau, digwyddiadau neu fethiannau agos yn uniongyrchol i'r system gan ddefnyddio cod QR i hwyluso'r broses. Bydd hyfforddiant i reolwyr yn cynnwys pecyn hyfforddi'r hyfforddwr, gyda

pheilot yn cael ei redeg yn ystod tymor yr Hydref 2025. Bydd rheolwyr a'r Uned Iechyd a Diogelwch hefyd yn cael mynediad at ddashfwrdd byw, gan alluogi adnabod tueddiadau, niferodd a phryderon yn yr amser real, a rhoi mesuriadau rheoli priodol ar waith yn brydlon. Bydd hyn yn gwneud y broses o reoli iechyd a diogelwch yn fwy effeithiol, ymatebol ac wedi'i seilio ar ddata.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

"Mae'r adroddiad yn cyfleu gwybodaeth i'r Cabinet a nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol."

### 4.2 Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad yn esbonio fod y Cabinet a rôl o fewn ein fframwaith iechyd a diogelwch. Mae'n briodol ei fod yn derbyn y wybodaeth sydd yma er yn rhoi sicrwydd ynglŷn a'n trefniadau yn y maes pwysig yma."

**Rhestr Atodiadau**

Dim

**Rhestr Dogfennau Cefndir**

Dim